**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 11 Mehefin 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | P R Hood-Williams | P K Jones |
| J W Jones | I E Mann | B J Rowlands |

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid/Swyddog Adran 151 |
| Rob Stewart | Aelod y Cabinet dros yr Economi, Strategaeth a Chyllid |
| Emily Davies | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P M Black, L James, M H Jones a/ac D W W Thomas

---

5 **Cadarnhau Cynullydd y Panel**

Cadarnhawyd y Cynghorydd Chris Holley fel Cynullydd y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid

6 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

7 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

8 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid a gynhaliwyd ar 10 Mai 2021, yn gofnod cywir.

9 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 10 Trosolwg: Deall Adrodd am Gyllid

Derbyniodd y panel drosolwg gan y Prif Swyddog Ariannol, a oedd yn canolbwyntio ar ddeall a dehongli adroddiadau ariannol y cyngor. Roedd hyn yn cynnwys crynodeb byr o'r terminoleg ariannol a'r cysyniadau a ddefnyddiwyd drwy gydol adroddiadau cyffredinol.

## 11 Alldro Refeniw, Alldro'r Cyfrif Refeniw Tai ac Alldro a Chyllido Cyfalaf 20-21

Roedd Ben Smith, Prif Swyddog Cyllid/Swyddog Adran 151, yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno Adroddiad Alldro Refeniw, Alldro'r CTR ac Alldro ac Ariannu Cyfalaf 20-21 ac ateb cwestiynau. Roedd y Cynghorydd Rob Stewart, Aelod Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth hefyd yn bresennol i gyflwyno i'r panel ac ateb cwestiynau.

Roedd y trafodaethau'n cynnwys y canlynol:

- Mae'r **Adroddiad Alldro Refeniw** yn cyflwyno canlyniadau gwych.
- Mae Adran 2 yn nodi tanwariant o £20 miliwn gan wasanaethau.
- Iawndal Llywodraeth Cymru am fethu â chyflawni arbedion cynlluniedig a hefyd er mwyn i gostau digidol ychwanegol barhau i fod yn hyblyg yn ystod y cyfyngiadau symud.
- 2.9.1 – Tabl yn crynhoi graddfa'r llif arian a ddaeth i mewn ac allan, i ni fel cyngor a hefyd fel asiant i Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth i fusnesau.
- Adran 4.4 Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion – sydd eisoes yr uchaf yng Nghymru, ac yr ychwanegwyd atynt yn sylweddol erbyn hyn, a chanddynt arian dros ben yn yr alldro. Mae'r cyngor yn disgwyl i ysgolion wario'n sylweddol yn y flwyddyn gyfredol. Mae ysgolion yn dal yr arian hwn.
- Nid ydym yn ymwybodol o'r effaith ar yr economi yn y dyfodol/effeithiau yn y tymor hwy.
- Atodiad A – Ni wnaeth y cyngor gyflawni'r £194,000 o arbedion ychwanegol a gynlluniwyd, ond dyfarnwyd arian grant i wneud iawn am y swm hwn.
- Costau Ariannu Cyfalaf – mewn tanwariant sylweddol yn y tymor byr i ganolig, oherwydd gohirio ariannu'r rhaglenni cyfalaf drwy fenthyca allanol.
- Diffyg Treth y Cyngor o £2.5M, ond caiff hyn ei niwtraleiddio oherwydd iawndal grant gan Lywodraeth Cymru.
- Soniodd y panel am y ffigurau cadarnhaol yn yr adroddiad.
- Holodd yr aelodau beth fydd y flwyddyn nesaf yn ei gynnig ynghylch cyllid a rhagolygon economaidd Llywodraeth Cymru.
- Ansicrwydd Brexit, gan gynnwys y pwysau cyflenwi sy'n cael eu profi ar hyn o bryd, er enghraifft prinder deunyddiau adeiladu.
- Cronfa Codi'r Gwastad o tua £40M yng Nghymru eleni. Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn broses gystadleuol.
- Nodwyd ffigur eithriadol o £50M wrth gefn.

- Dangosodd yr **Adroddiad Alldro a Ariannu Cyfalaf** raddfa enfawr y cyllid. Nododd y panel ffigurau syfrdanol.
- Parhaodd y rhaglen gyfalaf fwyaf erioed er gwaethaf heriau sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- Tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith bod ysbyty maes mawr wedi'i adeiladu hefyd, ynghyd â pharhad datblygiadau mawr yn y ddinas ochr yn ochr â chyfyngiadau'r cyfnod clo.
- Dywedwyd wrthym fod cyflawni adeiladu'r ysgol a'r rhaglenni tai yn ganmoladwy, a thalodd yr Arweinydd deyrnged i'r holl staff a chontractwyr dan sylw.
- T.3 Ariannu 2020-21: holodd y panel ynghylch cyfraniadau refeniw i gyfalaf o £33M. Eglurodd swyddogion fod CTR a chronfeydd cyffredinol yn cael eu cronni yma (£29M o hyn yw cyfraniad CTR).
- Mae adroddiad y **Cyfrif Refeniw Tai** (CRT) yn gymedrol ar alldro o ran amrywiadau. Tanwariant cymedrol, roedd y rhan fwyaf o wasanaethau'n parhau i gael eu cynnal.
- Canolbwyntio ar atgyweiriadau tai hanfodol ac uniongyrchol yn unig, o ystyried cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- Pryderon ehangach ynghylch creithiau economaidd a dyledion drwg posib ymhlith tenantiaid.
- Soniodd yr Arweinydd am y gwaith caled a wnaed gan y tîm cyllid, i sicrhau bod taliadau'n cael eu prosesu i gefnogi'r economi ehangach yn ystod y pandemig.

Soniodd y panel am natur ddigynsail yr adroddiad hwn a'r ffigurau syfrdanol a gyflwynwyd. Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am yr wybodaeth a oedd ar gael. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu mewnbwn

12 **Cynllun Gwaith Drafft 2021-22**

Ystyriodd y panel y cynllun gwaith drafft a chytunodd ar yr eitemau ar gyfer y flwyddyn ddinesig sydd i ddod, gan nodi'r posibilrwydd o rai newidiadau a hyblygrwydd ar gyfer eitemau.

13 **Llythyrau**

Daeth y cyfarfod i ben am 15.05